

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru	
Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Mercher 24 ^{ain} o Ebrill 2019
Amser y Cyfarfod:	9:00am – 4.00pm
Lleoliad y Cyfarfod:	Gwesty'r Manor, Crucywel, NP8 1SE
Cadeirydd	Andy Richardson

YN BRESENNOL: 24^{ain} o Ebrill 2019

<p>Llywodraeth Cymru:</p> <p>Alison Ebsworth (AME) Andrew Martin (AM) Anne Reynish (AR1) Dave Morris (DM) David Lloyd-Thomas (DLT) Gwen Jenkins (GJ) Jessica Bearman (JB) Lynn James (LJ) Mark Williams (MW)</p>	<p>Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru:</p> <p>Andy Richardson (AR) – Cadeirydd Alison Lea-Wilson (ALW) Annitta Engel (AE) Huw Thomas (HT) James Wilson (JW) Justine Fosh (JF) Katie Palmer (KP) Norma Barry (NB)</p>
<p>Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd:</p> <p>Sarah Lewis (SL) Lantra Katy Godsell (KG) Hyfforddiant Cambrian</p>	
<p>Ymddiheuriadau:</p> <p>Keith Smyton (KS) Llywodraeth Cymru David Lloyd (DL) Prifysgol Caerdydd</p>	

Rhif	EITEMAU AR YR AGENDA
1.	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd y cadeirydd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Keith Smyton a David Lloyd. • Cyflwynodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estyn croeso iddynt. Aeth o amgylch yr ystafell yn cyflwyno wynebau newydd i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. • Soniodd y cadeirydd yn gryno am gynnwys y cyfarfod.

2.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf

- Roedd y rhain wedi cael eu rhannu cyn y cyfarfod.

Materion yn Codi/Diweddariadau o Gofnodion y 6^{ed} o Ragfyr 2018

- **Strategaeth Diodydd.** Roedd (NB) wedi cael cyfarfod â Mark Grant, nad oedd yn gallu dod i'r ail gyfarfod yn anffodus.
- **Blas Cymru/Taste Wales 2019 – (Gweler Eitem 6 ar yr Agenda)**
- **Cynllun Gweithredu 2 – Eitem ar wahân ar yr Agenda (Gweler Eitem 4 ar yr Agenda)**
Mae'r datganiad cenhadaeth, y camau gweithredu a'r weledigaeth i gyd wedi'u cwblhau.
- **Trafodaeth am Strategaeth y Bwrdd**
Banc Datblygu Cymru – (HT) Roedd cyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal, ond nid oedd cyfarfodydd ffurfiol wedi cael eu trefnu.
- **Y Gynhadledd Gyllid/Y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad**
Cytunwyd i sefydlu a chynnal dwy gynhadledd yn 2019/2020, a fydd yn adlewyrchu gwaith y Rhaglen Fuddsoddi.

Pwyntiau Pwysig ar gyfer Cynadleddau'r Dyfodol.

- (1) Nodwyd 32 o gyfarfodydd Parod am Fuddsoddiad gyda busnesau yn nigwyddiad Blas Cymru 2019.
 - (2) Bydd Andrew yn adolygu'r rhaglen.
 - (3) Mae mesurau rheoli arian ar waith ar gyfer y cyfnod cyn ac ar ôl Brexit 2019. Mae llawer o fusnesau'n ei chael yn anodd iawn tyfu oherwydd ansicrwydd Brexit.
 - (4) Mae busnesau heb gyfarwyddwyr ariannol mewn sefyllfa wan, ac mae hyn yn effeithio ar eu perthynas waith â'u banc lleol. Gallai perthnasoedd gyda banciau chwalu, sy'n destun pryder. Mae'n anodd i fusnesau ddal ati i dyfu.
 - (5) Y Rhaglen Parod am Fuddsoddiad – meddwl am y camau nesaf.
 - (6) Elfen Risg (Banciau'n tynhau eu gafael ar yr elfen risg a benthyca) – Y Bwrdd i ddod i ddeall mwy am heriau cael cymorth gan fanciau ac ati.
 - (7) Mae angen cefnogi busnesau drwy'r argyfwng llif arian presennol.
 - (8) Datblygu Sgiliau – Edrych ar fenthyca i dimau rheoli yn hytrach na Chynlluniau Busnes.
 - (9) Cylch Gorchwyl.
- Hysbysiadau Cysylltiadau Cyhoeddus i'r Bwrdd – **wedi'i gwblhau**
 - Strategaeth y Ffrwd Waith Pobl a Sgiliau – **wedi'i gwblhau**
 - Strategaeth Busnes a Buddsoddi – **angen sylw**
I'w gwblhau pan fydd Cynllun Gweithredu 2 yn y camau olaf. Mae

	<p>angen cwblhau hyn cyn Strategaeth y DU.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Grid Cyfathrebu/Calendr Digwyddiadau – hysbysodd GJ y Bwrdd fod y dyddiadau ac ati ar y wefan. Maent ar gael i bawb, ac i Aelodau'r Bwrdd y gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r golofn ddigwyddiadau. Mae modd i bawb weld y calendr. Caiff y wybodaeth ei diweddarau bob pythefnos a'i hanfon at bawb yn yr Is-adran Fwyd. • Ail Ddrafft y Dangosfwrdd Cyflawni – angen sylw Mae angen i'r Bwrdd edrych ar y cynnwys a mynd ag ef i'r lefel nesaf. • Pleidlais Doodle ar gyfer Cyfarfodydd nesaf y Bwrdd – cwblhawyd gan bob aelod o'r Bwrdd. Mae MW wedi casglu'r wybodaeth ac mae dyddiadau cyfarfodydd 2019 wedi cael eu rhannu â phawb. <p>UNRHYW FATER ARALL – PWYNTIAU BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU A GODWYD GAN Y CADEIRYDD</p> <p>Cynllun Gweithredu 2 (CG2) – Mae angen mewnbwn Aelodau'r Bwrdd ar gyfer yr ymgynghoriad, gyda nifer o Is-strategaethau'n dod o dan hyn. Ar ôl CG2, bydd angen ystyried sut bydd y Bwrdd newydd yn cael ei ffurfio a beth fydd ei rôl o ran symud y strategaeth yn ei blaen. Perchnogaeth CG2 – cytunwyd y byddai'n strategaeth sy'n cael ei rhannu, ac yn eiddo i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd.</p> <p>Mae angen i'r Bwrdd ymgysylltu'n effeithiol â'r Diwydiant Bwyd i ddatblygu CG2.</p>
	<p>Strategaeth Sgiliau</p>
<p>3A.</p>	<p>Camau Gweithredu ar gyfer Strategaeth Sgiliau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru –</p> <p style="text-align: right;">Justine Fosh</p> <p>(1) Strategaeth Sgiliau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd dogfen wedi cael ei llunio • Roedd 2 gynhadledd sgiliau wedi cael eu cynnal. Roedd 4 cwrs a oedd yn gysylltiedig â sgiliau wedi cael eu cynnal, ac 1 nad oedd yn gysylltiedig â sgiliau • Mae'n rhaid i'r Bwrdd ystyried manyleb y tendr ar gyfer yr Ardal Sgiliau yn Sioe Frenhinol Cymru, ac anfon sylwadau at Enfys a Lyndsey. • Mae angen mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau sy'n effeithio ar gynhyrchiant (1) Mae Sgiliau Bwyd Cymru yn fyw erbyn hyn a bydd yn cael ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen. (2) Mae'r Brentisiaeth Peirianeg wedi cael ei datblygu a chafodd ei lansio yng Nghynhadledd Blas Cymru. Bydd Coleg Sir Benfro yn dechrau cynnig cwrs peirianeg bwyd fis Medi 2019. Roedd angen rhaglen gymorth oherwydd nid yw prifysgolion a cholegau'n cynnig cyrsiau peirianeg bwyd. • Mae'r arian ar gyfer sgiliau a geir drwy Lywodraeth Cymru yn llai na'r hyn a geir yn Lloegr, felly mae angen adeiladu sylfaen dystiolaeth well. • Mae'r cwrs peirianeg bwyd yn chwilio am 12 o fyfyrwyr neu ragor.

Rhaid dilyn y cwrs yn bersonol, nid oes modd ei ddilyn ar-lein. Mae angen creu cyswllt â cholegau eraill sydd wedi cynnal cyrsiau cysylltiedig yn barod.

- O ran cyflawni'r modiwl, edrychir ar 3 - 4 blynedd, heb fod yn llawn amser. Bydd modd cofrestru i ddilyn prentisiaeth ar gyfer y cyrsiau hyd at y dyddiad pan fydd y cwrs yn cychwyn.
- Bydd yr arian yn cael ei roi i'r darparwr, fel sy'n digwydd gyda phob cwrs prentisiaeth arall.
- Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru – Cynnig ar y cyd i'w roi at ei gilydd yng nghyswllt Bwyd.
- Byddai modd gwahodd Radnor Hills (AR) i ymuno â'r Bwrdd i edrych ar sut mae'r busnes hwn wedi croesawu cyfleoedd recriwtio a hyfforddi.

(2) Cynyddu Prentisiaethau

Yn dilyn newidiadau i bolisi yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd prentisiaethau yng Nghymru yn newid o'r system bresennol i system sy'n fwy cydnaws â'r model yn Lloegr, a bydd prentisiaethau'n fwy heriol yn dechnegol. Nid oes fframwaith yng Nghymru ar hyn o bryd.

- Polisi Sgiliau – Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau rhanbarthol 3 blynedd newydd ar gyfer sgiliau, sydd wedi cael eu rhannu â'r diwydiant ac yn cael eu cyflwyno. Erbyn hyn, mae Rhanbarth Gogledd Cymru wedi nodi bod Bwyd a Diod yn un o'r prif feysydd blaenoriaeth. Mae gwaith ymgysylltu â 2 ranbarth arall yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd Cynlluniau Lefel Prentisiaeth yn barod fis Gorffennaf 2019, a byddant yn pennu cyfeiriad ar gyfer y 3 blynedd nesaf.
- Roedd Grwpiau Partneriaeth Sgiliau Diwydiant wedi cyfarfod i drafod pynciau penodol. Yn Lloegr, mae Prentisiaeth Gradd mewn Gwyddor Bwyd ar gael erbyn hyn, ond nid oes llawer o alw yng Nghymru ar hyn o bryd. Cwestiwn i'r Bwrdd ei ystyried: – A oes galw am Radd Lefel 3 mewn Gwyddorau Bwyd yma yng Nghymru?

(3) Gwella argraffiadau o'r Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru, yn ogystal â dealltwriaeth o'r diwydiant a'r ddelwedd ohono.

- Yn Nigwyddiad Blas Cymru 2019, cafodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, gyfle i gyfarfod â myfyrwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cystadleuaeth beilot i ysgolion. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i ragor o ysgolion yn awr.
- Diweddariad ar Sioe Frenhinol Cymru 2019 – Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu lle ychwanegol ar y maes yn yr hen neuadd fwyd. Bydd yr Ardal Sgiliau yn rhywbeth newydd ar gyfer 2019. Bydd yr ardal hon yn cynnwys llawer o weithgareddau er mwyn i bobl gael dysgu am yrfaeod yn y diwydiant bwyd. Bydd yr ardal hon yn helpu i hyrwyddo Busnesau Cymru. Efallai y bydd modd cysylltu hyn â thaith 'Cows on Tour' a Llysgenhades 2019 hefyd.
- Gofyn i Raglen Allgymorth IGD a fyddai'n hoffi bod yn rhan o'r Ardal Sgiliau yn y Sioe Frenhinol. Byddai modd dod â darparwyr

	<p>hyfforddiant eraill i'r ardal hon hefyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu Pecyn i Ysgolion i'w ddefnyddio gyda busnesau lleol. Mae 14 o gwmnïau eisoes yn darparu Teithiau Blasu, lle maent yn agor eu drysau i blant gael gweld beth maent yn ei wneud. • Mae 45 o Lysgenhadon Bwyd a Diod Cymru wedi cael eu hyfforddi – rhaglen 2 ddiwrnod i ddysgu popeth am y diwydiant bwyd ac am lwybrau gyrfa. <p>4. Addasu i Heriau'r Diwydiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun peilot yn y Cymoedd i recriwtio pobl leol i'r diwydiant Bwyd a Diod. Bydd llawer o Gwmnïau Bwyd yn mynd at Asiantaethau, sy'n ddrud, ac mae'n bosibl y bydd ambell un o'r staff asiantaeth yn aros yn y busnes. Nid yw pobl yn dymuno colli budd-daliadau ac felly maent yn gyndyn o ymrwymo i waith amser llawn. Mae Cynllun y Cymoedd yn ei gwneud yn bosibl i bobl aros ar fudd-daliadau a chael hyfforddiant. Mae'n rhaid i gwmnïau gynnig gwaith pan fydd yr hyfforddiant wedi dod i ben. Cynllun Peilot gydag RF Brookes: Roedd 15 wedi cael hyfforddiant, 10 wedi aros yn y swydd a 2 wedi mynd ymlaen i wneud swyddi medrus. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ymestyn i gynnig rhagor o weithgareddau ar hyn o bryd. <p>Ar ôl y cynllun peilot yn y Cymoedd, bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno yng Ngogledd Cymru i weld a yw'n gweithio yr un fath yn y fan honno. Yna, bydd argymhellion yn cael eu gwneud am gyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol.</p> <p>5. Datblygu Cymru fel hafan Arloesi Cynaliadwy yn y Diwydiant Bwyd a Diod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae hwn wedi'i gysylltu ag eitemau eraill ar yr Agenda – Gwerthoedd Brand Cynaliadwy
<p>3B.</p>	<p>Y wybodaeth ddiweddaraf am Ffrwd Waith Sgiliau'r Cyngor Bwyd a Diod</p> <p style="text-align: right;">Justine Fosh</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Cyngor y Sector Bwyd yn gweithredu ar draws y DU a'r Sector Bwyd felly mae'n cynnwys ffermio, gweithgynhyrchu bwyd, lletygarwch ac adwerthu. Cyngor diwydiant ydyw sy'n dod at ei gilydd er mwyn llobio'r llywodraeth. Mae (AR) a (JF) yn eistedd ar y cyngor fel Cynrychiolwyr Cymru, gyda chyd-aelodau o weddill y DU. • Yr Is-grŵp Sgiliau – yn cael ei gadeirio gan Fiona Kendrick • Rhoddodd (AR) a (JF) gyflwyniad ar Gynllun Cymru, sy'n arwain y ffordd o'i gymharu â gweddill y DU. • Roedd grwpiau wedi'u ffurfio o amgylch 3 maes craidd ac 1 is-faes <ol style="list-style-type: none"> (1) Prentisiaethau (2) Delwedd o'r Diwydiant (3) Uwchsgilio (4) Sylfaen Dystiolaeth (gwybodaeth am y farchnad lafur). Caiff cyfarfodydd eu cynnal bob 2-3 mis. Bydd Bergen y Sector Bwyd a fydd yn deillio o hyn yn canolbwyntio ar Loegr. • Roedd arolwg wedi cael ei gomisiynu ynghylch Heriau'r Diwydiant

	<p>Bwyd, ac roedd wedi cael ei rannu â'r Bwrdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cafwyd ôl-drafodaeth ar y lefel uchaf ar ganfyddiadau'r ymchwil, y problemau a nodwyd – gan gynnwys Arweinyddiaeth a Rheolaeth – a sgiliau peirianyddol. • Edrychwyd ar ystadegau ynglŷn â pham mae pobl yn defnyddio gweithwyr o dramor. Un o'r prif bwyntiau a nodwyd oedd mai nod y strategaeth hon oedd datrys y broblem o brinder gweithwyr lleol, nid talu cyflogau is.
<p>3C.</p>	<p>Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Sgiliau Bwyd Cymru gan Lantra Sarah Lewis</p> <p>Rhannwyd y cyflwyniad i holl aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraeth Cymru – Contract wedi'i ariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig, mis Gorffennaf 2019. • Bydd y Prosiect yn cael ei redeg tan fis Medi 2021. • Y Gyllideb ar gyfer Hyfforddiant ar hyn o bryd yw £1.2m a TAW. Os bydd y rhaglen yn llwyddiannus, bydd rhagor o arian yn cael ei ddarparu. • Rhaid cwblhau'r hyfforddiant mewn 12 mis. • Mae angen blaenoriaethu. • Daeth y rhaglen yn fyw ar yr 2^{il} o Ebrill 2019. • Datblygu map cymorth. • Mae'r telerau ac amodau llawn ar y wefan. • Helpu'r Busnesau hynny sy'n awyddus i fod yn ddylanwadol yn y diwydiant bwyd yng Nghymru. • Mae rheolau De Minimis yn berthnasol – mae'n rhaid i gwmnïau roi tystiolaeth (drwy lythyr) a bydd hyn yn effeithio ar lefel y cyllid sydd ar gael. Nid oes cronfa ddata sy'n dangos a yw cwmnïau wedi cael arian yn y gorffennol, ac os ydynt, faint o arian maent wedi'i gael. Bydd hyn yn cael ei gyfrifo hefyd ar y gyfradd gyfnewid gyda'r Ewro bob mis, a bydd busnesau'n cael gwybod y manylion. • Cyfeirio at gyrsiau mewn colegau perthnasol lle gall busnesau ddilyn cyrsiau hylendid bwyd ac ati. • Yn aml iawn, mae nawdd Prosiect Helix yn 100% ar gyfer microfusnesau, sy'n llwybr gwell ar gyfer cyrsiau sy'n £200 neu lai. • Bydd anghenion busnesau'n cael eu hystyried a byddant yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol. • Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gyda'r bwriad o fod yn hyblyg. Er enghraifft, mae modd ariannu hyfforddiant sy'n benodol i beiriannau arbennig. Mae Lantra yn cynnal ymarfer caffael ar wahân drwy GwerthwchiGymru ar gyfer hyfforddiant arbenigol. • Mae llawer o gyrsiau ar gael ym maes Rheolaeth Amgylcheddol. • Mae colegau yng Nghymru yn cael eu hariannu'n llwyr am y cyrsiau sy'n cael eu cynnal ganddynt. • Mae'r wefan yn dweud pa hyfforddiant sy'n cael ei gefnogi gan Lantra. Mae hyfforddiant pwrpasol ar gael ac mae'r rhaglenni'n cael eu datblygu gyda'r bwriad o fod yn hyblyg.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwybodaeth am gyrsiau ar gael ar wefan GwerthwchiGymru • £3M o gyllid (£1.2m i ddarparu hyfforddiant ac £1.8m ar gyfer staff a chostau gweinyddol) • Dylai Lantra fod yn ddewis olaf ar gyfer cyllid ar ôl ystyried opsiynau eraill. • Mis Medi 2019 – adborth ar faint o arian sydd wedi cael ei wario. Bryd hynny, bydd ceisiadau a'r gwaith cyflawni yn cael eu sgorio.
<p>3D.</p>	<p>Y wybodaeth ddiweddaraf gan Hyfforddiant Cambrian</p> <p style="text-align: right;">Katy Godsell</p> <p>Rhannwyd y cyflwyniad i holl aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Hyfforddiant Cambrian yn 1 Darparwr Hyfforddiant o 19 sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn darparu hyfforddiant ledled Cymru. • Mae'n gweithio ar nifer o brosiectau. • Hyfforddwyr penodol sy'n gweithio mewn meysydd arbennig e.e. bwyd, diod, digwyddiadau. • Darparwr hyfforddiant seiliedig ar waith sy'n ymweld â chyflogwyr a myfyrwyr bob mis neu bob 61 diwrnod yn unol â'r canllawiau. Nid ydynt yn gweithio gyda cholegau. • Cynllun Twf Swyddi Cymru – mae'n targedu cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, a bydd yn dod i ben yn 2020. • Cyflwyno Prentisiaethau ar gyfer y Sector Bwyd a Diod yng Nghymru yn bennaf. • Dyma'r cyrsiau eraill sy'n cael eu darparu:- Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu, Arwain Timau, Rheoli Timau, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Gofal Anifeiliaid a Cheffylau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar. • Mae'r Prentisiaethau'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n rhaid gweithio 16 awr yr wythnos a bod â'r hawl i weithio yn y DU. • Y cylch cyllido ar gyfer Prentisiaethau yw Awst - Gorffennaf. • Caiff cyrsiau eu darparu ar draws Cymru, gyda rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei roi yn Lloegr am gost ychwanegol. • Mae'r holl gymwysterau wedi'u hachredu gan FDU ac Excel. • Ni fydd yr hyfforddiant yn cael ei ddyblygu. • Mae pob prentisiaeth yn gludadwy a gellir eu trosglwyddo i ddarparwr arall. • Mae cyflogwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd dod o hyd i staff. Gwybodaeth am brentisiaethau ar gael ar-lein. • Hyfforddiant prentisiaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion y cyflogwr. • Mynediad ar-lein 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer anghenion y dysgwr. • Mae prentisiaeth yn gymhwyster fframwaith cydnabyddedig NVQ (Mathemateg, Saesneg a chyfathrebu). • Mae'r cyrsiau ar gael ar wefan Busnes Cymru. • Fel bonws ychwanegol, mae cyrsiau Iechyd a Diogelwch ar gael am

	<p>ddim ar-lein.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 42 o gyflogwyr gweithredol ar draws Cymru yn delio gyda Hyfforddiant Cambrian ar hyn o bryd, ac mae 112 o gyflogwyr ar y gronfa ddata. O fusnesau bach i fusnesau mawr, mae rhai wedi croesawu'r fframwaith prentisiaethau fel ffordd o ateb eu hanghenion ac wedi derbyn nifer o brentisiaid bob blwyddyn. • Ffurfir perthynas dda gyda'r cyflogwyr, gan ddod i adnabod y busnes. • Cystadleuaeth o fewn y cynllun prentisiaethau.
<p>4.</p>	<p>Cynllun Gweithredu 2 – Diweddariad a'r Camau Nesaf</p> <p style="text-align: right;">David Lloyd-Thomas</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Polisi Bwyd (CG2) yn fwy datblygedig yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Mae CG2 wedi cael ei ystyried gan y Cabinet ac mae angen ei rannu gyda'r Gweinidogion cyn yr ymgynghoriad. • Gofynnwyd am farn y Bwrdd a holwyd pa rôl/swydd yr hoffai'r Bwrdd ei mabwysiadu ar ôl i CG2 gael ei gyhoeddi. • Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru am i'r ymgynghoriad a'r ddogfen derfynol gael eu gweld fel cyhoeddiad ar y cyd ac enghraifft o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd. Codwyd pryder ynghylch gallu'r Bwrdd i gyflawni CG2, gan gofio mai dim ond hyn a hyn o adnoddau sydd ganddo mewn gwirionedd. Mae'n bwysig nad yw'r Bwrdd yn cael ei weld fel gwas bach i'r llywodraeth. Rhaid bod yn glir ynghylch beth mae ymdrech ar y cyd yn ei olygu, ac mai rôl y Bwrdd yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, bod yn llysgennad i'r sector, a helpu i ddod â busnesau a rhanddeiliaid perthnasol at ei gilydd. Rôl Llywodraeth Cymru yw darparu'r cymorth ymarferol (cymorth ariannol ac mewn nwyddau) a hwyluso'r cysylltiadau rhwng y sector a meysydd eraill y mae gan Lywodraeth Cymru ran ynddynt. Drwy wneud hyn, y nod yw sicrhau bod polisiau cyhoeddus a'r gwaith darparu wedi'i gydgyssylltu ar draws pob rhan o'r ystod eang o fuddiannau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â nhw ym maes bwyd. • Soniwyd hefyd yn y drafodaeth am y cwestiwn cysylltiedig o rôl y Bwrdd yn y dyfodol. Ai cynghori Llywodraeth Cymru yn fwy na dim? Ynteu a ddylai ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif, gan fod yn fwrdd llywodraethu rhaglen efallai – os felly, rhaid holi beth mae hyn yn ei olygu o ran penodi aelodau yn nes ymlaen yn y flwyddyn. • Roedd y Bwrdd yn ffafrio ymgynghori ar CG2 cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r ddogfen nodi, er y bydd Brexit yn effeithio ar y sector, ni fydd yn newid yr hanfodion, sef yr angen i wella cynhyrchiant, cryfhau llwybrau i'r farchnad, codi ein proffil a'n safonau, gwneud pethau mewn ffordd gynaliadwy ac ati. Yr hyn y gallai Brexit ei newid yw'r angen i ganolbwyntio mwy byth ar y pethau hyn. O ran yr amserlen, cytunwyd ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • yn yr wythnos yn dechrau ar 13^{eg} o Fai, anfon fersiwn ddrafft CG2 at aelodau'r Bwrdd fel drafft cyntaf i roi sylwadau arno. • yn yr wythnos yn dechrau ar y 3^{ydd} o Fehefin, cyflwyno'r drafft terfynol. (Gellir bod yn hyblyg gyda'r dyddiad gan gofio bod

	<p>angen cyfieithu a chysodi).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wythnos Sioe Frenhinol Cymru – cyhoeddi. • Yn ystod y cyfnod ymgynghori, hoffai'r Bwrdd gynnal rhywfaint o ddiwyddiadau ymgynghori. Gallai un fod yn y Sioe Frenhinol – sesiwn holi ac ateb/galw heibio efallai. Byddai modd trefnu ryw 3 arall o bosibl, gan ddefnyddio'r tair canolfan fwyd, ac estyn gwahoddiad i fusnesau a rhanddeiliaid eraill. Byddai cyfarfod undebau'r ffermwyr, a Bwrdd HCC, yn bosibilrwydd hefyd. <p>O ran cwestiynau'r ymgynghoriad, roedd yr aelodau'n ffafrio llai o gwestiynau yn hytrach na llawer ohonynt, a'u cadw'n agored er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r ymatebion yn cael eu harwain ar hyd llwybrau penodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ers i Marcus adael, nid oedd gan y Bwrdd arbenigedd yn y sector cig coch rhagor.
<p>5.</p>	<p>Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Werthoedd Brand Cynaliadwy a Chanllawiau'r Bwrdd</p> <p style="text-align: right;">Jessica Bearman</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r angen am gynllun Gwerth Brand Cynaliadwy ar gyfer Cymru – pwysau systemau bwyd byd-eang (yn ôl pob tebyg bydd y boblogaeth yn 10 biliwn yn 2050); pwysau economaidd (Brexit a'r bygythiad i'n marchnad) a phwysau amgylcheddol (gwastraff bwyd ac ati) ar Fwyd ac Amaethyddiaeth yng Nghymru, a galw am ddeiet o safon uchel. Y cyfleoedd mae gwaith ymchwil Gwerth Cymreictod yn eu cynnig – mae bwyd o Gymru yn cael ei gysylltu â safon a naturioldeb. Ond beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, a sut mae mesur hyn? Nod Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yw marchnata'r pethau sy'n gwneud cynnyrch Cymreig yn wahanol, yn ogystal â'r systemau cynhyrchu, ac ychwanegu hygyrdd i Fwyd a Diod o Gymru, gan roi mantais o ran cystadleuaeth. • Cyflwynwyd y weledigaeth. Heriodd NB hyn, gan holi ai gweledigaeth ar gyfer y cynllun ynteu weledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd ac Amaeth yng Nghymru ydoedd. Tynnodd NB sylw at derminoleg anghywir o ran cenhadaeth; nodau strategol ydynt. • (JW) Nid yw bwyd ac amaethyddiaeth i bob golwg yn cynnwys sectorau eraill, fel pysgodfeydd. Mae pysgodfeydd am gael yr un gydnabyddiaeth. • Gwerthoedd Brand Cynaliadwy – bod yn hollgynhwysol ac ystyried y camau datblygu gwahanol y mae busnesau'n gweithredu'n unol â nhw ar hyn o ryd. Rhannu arferion gorau a galluogi busnesau i ddilyn siwrnai o welliannau parhaus. Gyda'i gilydd, bydd cyfanswm y gweithgarwch busnes yn datblygu ac yn ategu Brand Cymru. • Gwerthoedd wedi'u cynllunio ar sail Amcanion Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. (1) Cadw ein hamgylchedd a hybu defnyddio adnoddau'n effeithlon (2) Sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu

	<p>mewn ffordd ddiogel a glân (3) Diogelu lles anifeiliaid, bioamrywiaeth a rhywogaethau sydd mewn perygl (4) Dathlu diwylliant, traddodiadau ac elfennau brodorol Cymru (5) Creu cynhyrchion iachus a maethlon ac amgylcheddau iach (6) Cydnabod arferion gweithio moesegol a'u gwobrwyo.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Drwy'r Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, byddai'r diwydiant amaethyddiaeth a bwyd yn cael eu cynnwys, ac yn gysylltiedig â'r 6 pwynt uchod. Mynegwyd pryder ynghylch busnesau'n methu bodloni'r elfen 'Cynhyrchion Iach'. (DM) Mae'n bosibl na fydd rhai busnesau'n gallu gwneud hyn, ond gallant ddangos eu bod yn gwneud yr ymdrech i ateb gofynion y 6 pwynt. Ni fyddai disgwyl i gyfraniad pob busnes fod yr un fath ar gyfer pob un o'r 6 elfen. • Roedd NB yn bryderus nad oedd y gwerthoedd yn werthoedd go iawn. • Roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r manteision i Ddiwydiant Cymru, gan gefnogi busnesau Micro a Bach a Chanolig i ddatblygu'u meysydd arbenigol ac ymwybyddiaeth o'u brand, a chaniatáu i gwmnïau mawr fodloni rhwymedigaethau cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol. Drwy gydweithio, bydd modd i fusnesau rannu arferion gorau. • Mae angen i waith ymgysylltu â busnesau gyflwyno darlun o'r buddion ariannol posibl drwy sicrhau gwelliannau o ran gwastraff, a swyddi mwy medrus sy'n talu'n well yn y dyfodol. • Bydd achrediad sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiant yn cael ei hybu, a bydd modd adeiladu arno i leihau beichiau ychwanegol i fusnesau yn sgil dyblygu o ran safon a chynllun. • Bydd Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn drawsbynciol, yn cyd-fynd â pholisïau Amaethyddol, a marchnadoedd allforio. • Mae'n flaengar, gan ystyried lle mae angen i Gymru fod yn y 5 i 10 mlynedd nesaf. • Mae yno i helpu i werthu Cymru a hanes bwyd a diod i'r byd.
6.	<p>Ōl-drafodaeth ar Blas Cymru ac Adborth y Bwrdd</p> <p style="text-align: right;">Anne Reynish</p> <p>Rhannwyd y cyflwyniad i holl aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn Blas Cymru 2017, nododd y Bwrdd eu bod wedi cyfrannu mwy at Ddigwyddiad 2019. Diolchodd y Bwrdd i (AR1) a'i thîm am gynnal digwyddiad mor llwyddiannus eleni. Roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at ddigwyddiad 2021. <p>Materion yn codi o Ddigwyddiad 2019.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchion Newydd 2019 – Oni fyddai wedi bod yn bosibl dangos y rhain mewn man penodol ar gyfer hyn? Roedd y 159 o'r Cynhyrchion Newydd a oedd yn cael eu cyflwyno yn nigwyddiad 2019 ar goll braidd yn yr arddangosiad mwy. <p>Cinio Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ar y Nos Fawrth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd neb yn cwrdd â phobl ac yn eu croesawu yn y 2010 <i>Clubhouse</i>. Roedd (NB) wedi cyrraedd yn gynnar i gyfarfod pobl.

	<p>Roedd yr araith cyn y cinio yn fwy o sesiwn briffio na gair o groeso, ond roedd hynny oherwydd bod y cynlluniau wedi newid pan welwyd nad oedd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn mynd i allu cyrraedd mewn pryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y gwasanaeth yn araf gan staff y gwesty. • Roedd rhywfaint o ddryswch o ran nawdd a hyrwyddo yn y Cinio. <p>Y Brif Gynhadledd ar y dydd Mercher a'r dydd Iau</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ran yr ystadegau ar gyfer y gynhadledd, roedd £16m wedi cael ei wneud mewn cytundebau masnach yn nigwyddiad 2017. • Roedd cynrychiolwyr o 19 o wledydd wedi dod i'r digwyddiad, a oedd yn fwy na'r ffigur ar gyfer 2017. Roedd mwy o brynwyr o'r tu allan i Ewrop, gyda llawer o brynwyr o'r Dwyrain Canol yn bresennol. • Roedd Princes Foods yn brif noddwr ardderchog ar gyfer y digwyddiad. • Presenoldeb Graddedigion – Dim ond 3 oedd wedi ymateb a 2 oedd yn bresennol ar y diwrnod. • Digwyddiad broceriaeth – Roedd unigolion wedi cyrraedd yn disgwyl cael mynd i'r digwyddiad broceriaeth, ond nid oeddent wedi talu, ac roeddent wedi gwneud ffÿs. • Arddangosiadau • Nid yw Cynhadledd Blas Cymru yn gweithio ar y cyd â'r Sioe Fasnach. • Ardaloedd Unigol – roedd y rhain yn gweithio'n dda ac roedd yr adborth yn gadarnhaol, ond roedd nifer yr ymwelwyr yn isel. • Digwyddiadau Blas Cymru yn y dyfodol – a ddylem ni gynnal y digwyddiad hwn bob blwyddyn ynteu a fyddai'n syniad cynnal y gynhadledd un flwyddyn a'r sioe fasnach y flwyddyn wedyn? Hefyd, a ddylem ni newid y lleoliad, a mynd o amgylch Cymru? • Cyhoeddusrwydd ar ôl y digwyddiad – nid oedd y digwyddiad wedi cael y cyhoeddusrwydd y gobeithiwyd ei gael. • Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar y 1^{af} o Fai 2019 lle bydd ôl-drafodaeth am hyn.
7.	<p>Diweddariad ar y Strategaeth Bwyd Môr</p> <p style="text-align: right;">James Wilson</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith yn dal ar y gweill ar y Strategaeth Bwyd Môr. • Roedd cyfarfod wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror 2019 ar gyfer y tîm M&F, a bydd cyfarfod dilynol yn cael ei drefnu yn y mis nesaf. Y prif faterion a drafodwyd yn y cyfarfod hwn oedd:- <ul style="list-style-type: none"> ○ Amcanion Cyflawni ○ Materion yn ymwneud â Brexit ○ Cynnydd mewn Perfformiad ○ Iechyd a Diogelwch ○ Prosesau o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ○ Dibyniaeth Bwyd Môr ar Farchnad Bwyd Môr Ewrop ○ Amserlen ar gyfer datblygiad deddfwriaethol a Chyfreithwyr Llywodraeth Cymru

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Amgylchedd Morol Cymru ○ Cefnogaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i'r Brand
8.	<p>Cynnig ar gyfer Ffrwd Waith Bragu y Strategaeth Diodydd Andy Richardson</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ceir yr argraff bod y strategaeth bresennol ar gyfer diodydd yn canolbwyntio mwy ar wirodydd a ddim cymaint ar y diwydiant bragu. Ai am fod y maes bragu yn fwy cymhleth nag unrhyw faes arall? A yw safbwyntiau'r diwydiant i gyd yn cael eu nodi? Ar hyn o bryd, mae 136 o Fragwyr yng Nghymru, a'r rheini'n darparu ar gyfer ardal leol fechan yn bennaf.
9.	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>(1) Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru – Katie Palmer Bydd y gynhadledd hon yn cael ei chynnal ar yr 11^{eg} a'r 12^{fed} o Dachwedd 2019 ym Mhrifysgol Aberystwyth Mae'r gweithgor wedi'i sefydlu a 4 Thema Allweddol wedi'i nodi. Bydd hwn yn ddigwyddiad agored, gyda gwesteion wedi'u targedu hefyd, i ddathlu Bwyd a Ffermio. Y gobaith yw y bydd y Bwrdd yn cyfrannu hefyd. Bydd y Gweinidog, Lesley Griffiths, yn cael gwahoddiad i'r digwyddiad.</p> <p>Ymchwiliad – Dyfodol Plant Bydd hwn yn cael ei lansio ar y 25^{ain} o Ebrill 2019 yn Llundain</p> <p>Gwledydd Datblygedig – 2^{il} o Fai 2019 Bydd Prif Weinidog Cymru – Mark Drakeford – yn bresennol Y Bwrdd i ystyried CG2</p> <p>Y Loteri Fawr Gwaith Integreiddio</p> <p>Pythefnos Bwyd Prydeinig – 21^{ain} o Fedi tan y 6^{ed} o Hydref 2019 Llywodraeth Leol Cymru. Mae GJ wedi ymateb. Adnodd ar gyfer Bwyd Cymru</p>
9B.	<p>Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru – Tindr Cyfathrebu 2019/20 – Dave Morris</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Tindr 2019/20 yn wag. MA wedi'i gwblhau ac wedi'i anfon i'r Gweinidog i'w gymeradwyo.
9C.	<p>Cyflwyniad am y Clystyrau – Andrew Martin Roedd y cyflwyniad wedi cael ei rannu cyn y cyfarfod. Mae'r Clystyrau'n gwneud yn dda. Bydd Clystyrau'n ymddangos fel eitem ar yr agenda yn un o gyfarfodydd nesaf y Bwrdd.</p>
10.	<p>Dyddiadau cyfarfodydd 2019 16^{eg} o Orffennaf 2019 – Gogledd-ddwyrain Cymru: lleoliad i'w gadarnhau 16^{eg} o Hydref 2019 – De-ddwyrain Cymru: lleoliad i'w gadarnhau Rhagfyr 2019 – dyddiad a lleoliad i'w gadarnhau</p>

11.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod daeth y cyfarfod i ben.